


# Losin neu Lanast y Calan Gaeaf Arswydus Hwn

Y Calan Gaeaf hwn efallai y byddwch chi a'ch plant yn mynd allan i dŷ bwgan i gael ychydig o hwyl arswydus. Ond os oes gennych blant sydd â diabetes Math 1 gallai hyn deimlo ychydig yn iasol gan fod y ffyrdd wedi'u haddurno â danteithion llawn siwgr a'r crochanau'n llawn melysion erchyll.





Er na allwn atal y gwrachod rhag dwyn eich ysgubau neu ysbrydion rhag ymosod ar eich meysydd pwmpenni, mae ein fampirod bach yn DigiBete wedi bod yn gweithio ar ddull i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y digwyddiad.



Mewn steil fampirod go iawn maen nhw wedi creu taflen twyllo hynod campus i helpu i osgoi'r eiliadau hunllefus hynny o weld pa felysion bach sydd heb unrhyw wybodaeth am garbohydradau.

Isod mae eu tabl brawychus o dda ac os gwelwch fod ein fampirod bach truenus wedi hepgor losin oddi ar y siart, rhowch wybod iddyn nhw. Gallwch gysylltu â nhw ar hello@digibete.org A pheidiwch â phoeni, wnawn nhw ddim brathu (gormod!) Mwaaahhhh

| Melysion | Pwysau | Carbohydradau | Carbohydradau fesul 100g |
|---|---|---|---|
| Cadbury's treat size Twirl | 21.5g (per finger) | 13g | 58g |
| Cadbury's treat size Curly Wurly | 14g (per bar) | 9.9g | 71g |
| Cadbury's treat size Flake | 20g (per bar) | 11.8g | 59g |
| Cadbury's treat size Fudge | 13.5g (per bar) | 10g | 75g |
| Cadbury's chocolate buttons | 30g | 17g | 57g |


© copyright 2026 DigiBete all rights reserved. Company registration number: 10371773


| Melysion | Pwysau | Carbohydradau | Carbohydradau fesul 100g |
|---|---|---|---|
| Cadbury's Caramel Freddo | 19.5g | 11.5g | 59g |
| Cadbury's Freddo | 18g | 10.1g | 56.5g |
| Cadbury's Heroes | 12g (each) | 8g (each) | 65g |
| Celebrations | 10g ( each) | 6g (each) | 62.5g |
| Chupa Chups 'mini' lollies | 6g | 5.8g | 96g |
| Chupa Chups lollies | 11g | 10.5g | 96g |
| Lolis Drumstick lollies | 7g | 6.2g | 87.9g |
| Drumstick squashies | 20g (serving) | 17g | 84g |
| Fruit-tella Magics | _ | _ | 83g |
| Fruit-tella Zoo Mania | _ | _ | 83g |
| Haribo Party Selection | 16g | 12.5g | 78g |
| Haribo Starmix - 'Mini Bag' | 16g | 12g | 77g |
| Haribo Tangfastics | 16g | 12.8g | 80g |
| Kinder Chocolate Bar | 12.5g | 6.7g | 53.5g |
| Kinder Happy Hippo Milk Chocolate and Hazelnut Biscuits | 20.7g (per hippo) | 10.4g | 50.5g |
| Love Hearts mini roll | 10g (approx) | 8.7g | 87.6g |
| M&M's Fun-size choc bag | 20g | 14g | 70.2g |
| M&M's Fun-size peanut bag | 20g | 11.8g | 58.8g |
| Maoam Stripes | 7g (each) | 6g | 84g |
| Maoam Bloxx | 22g (1 bloxx) | 18.5g | 84g |
| Mars - Fun-size | 18g | 12.7g | 70.7g |
| Milky Way - Fun-size | 15.5g | 11.4g | 73.4g |


© copyright 2026 DigiBete all rights reserved. Company registration number: 10371773

| Melysion | Pwysau | Carbohydradau | Carbohydradau fesul 100g |
|---|---|---|---|
| Milkybar | 12g | 6.4g | 52.9g |
| Milkybar Wowsomes white chocolate | 18g | 7.8g | 43.2g |
| Rainbow Drops | 10g | 8.7g | 87.3g |
| Skittles - Fun-size bags | 18g | 16g | 89.1g |
| Smarties - Fun-size box | 14.4g (1 box) | 9.8g | 68.1g |
| Twix - Fun-size | 20g | 13g | 64.6g |
| Starburst - Fun-size | _ | _ | 83.9g |

## Cyngor Craff

Mae losin neu lanast yn ymarfer corff! Yn enwedig os yw'n lleuad lawn a'ch bod yn cael eich erlid gan y bleiddiaid melltithiol. Efallai y gwelwch y gallai eich anghenion inswlin newid ychydig. Cadwch lygad ar eich lefelau. Credwn y gall rhedeg yn igam ogam helpu i ddrysu'r bleiddiaid.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu cyrraedd eich pwmp inswlin, CGM neu synhwyrydd Flash yn hawdd wrth wisgo'ch gwisg arswydus o dda.








Sicrhewch fod eich pecyn diabetes Math 1 gyda chi i gadw llygad ar eich lefelau glwcos. Dydych chi byth yn gwybod pryd y gallech chi ddod wyneb i wyneb á chriw o Sgerbydau ac mae angen i chi ddangos iddyn nhw sut rydych chi'n monitro'ch glwcos yn eich gwaed.

www.digibete.org Resource last reviewed November 2025
© copyright 2026 DigiBete all rights reserved. Company registration number: 10371773